

**Pwyllgor yr Economi,  
Masnach a Materion Gwledig**

**Economy, Trade and  
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddEconomi@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddEconomi  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddEconomy@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddEconomy  
0300 200 6565

Jeremy Miles AS  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

28 Medi 2021

Annwyl Weinidog,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol**

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol yn ei gyfarfod diwethaf ar 16 Medi 2021.

Mae adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm wedi'i osod cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 30 Medi. Ysgrifennaf i dynnu eich sylw at wybodaeth y gofynnodd y Pwyllgor amdani cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm, fel y nodir ym mharagraffau 29 a 30 yr adroddiad:

Byddai'r Pwyllgor yn hoffi i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y materion a ganlyn:

- Darparu ei hasesiad o effaith y Bil ar broffesiynau rheoleiddiedig yng Nghymru.
- Amlinellu effaith cymwysterau proffesiynol rheoleiddiedig yng Nghymru er mwyn canfod y galw am rai proffesiynau penodol.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU i geisio eglurhad ar gwmpas y Bil a'r modd y caiff ei gymhwyso i rai sectorau, fel addysg bellach.



-Rhoi manylion unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw newidiadau i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdanynt.

-Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau a gafodd Llywodraeth Cymru â'r rheoleiddwyr yng Nghymru y bydd y Bil yn effeithio arnynt, gan gynnwys cyrff yn y sector cyhoeddus.

-Disgrifio'r cysylltiad rhwng y Bil â threfniadau perthnasol eraill yn y DU, fel Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, y system newydd ar gyfer mewnfudwyr a threfniadau rhyngwladol yn y dyfodol, ac effaith gyfunol y rhain.

O ystyried bod cyn lleied o amser ar gael i graffu ymhellach ar ddarpariaethau'r Bil neu i gyhoeddi gohebiaeth gysylltiedig y Pwyllgor, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani cyn gynted â phosibl, a sicrhau ei bod ar gael i holl Aelodau'r Senedd cyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

Cofion gorau,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

